

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Blynyddol

Mawrth 2015



Rhagair

Hwn yw'r trydydd adroddiad blynyddol ar gyflawniadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rydym wedi cynnwys astudiaethau achos i roi ymdeimlad â'r gwaith ardderchog y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Mae gwaith ein hadrannau Cymunedau ac Addysg ynghyd â'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy'n arbennig o lwyddiannus o ran targedu grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Rwy'n gobeithio y gallwn adeiladu ar eu gwaith a pharhau i ddenu cynulleidfaoedd newydd i'r Parc Cenedlaethol a chefnogi mentrau cymunedol.

Ym mis Rhagfyr 2014 roedd yn bleser gan yr Awdurdod gyhoeddi mai ef yw'r Awdurdod Parc Cenedlaethol cyntaf yn y DU i gael ei gydnabod yn swyddogol fel un sy'n 'Gweithio tuag at fod yn gyfeillgar i ddementia'.

Gobeithio y byddwch yn cael yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ddiddorol ac os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â Richard Mears, Rheolwr Adnoddau Dynol, gan ddefnyddio HR@beacons-npa.gov.uk



John Cook

Prif Weithredwr



Mr Geraint Hopkins

Cadeirydd yr Awdurdod
Parc Cenedlaethol



Y Cyng. David Meredith

Aelod-Hyrwyddwr
Cydraddoldeb

Cynnwys

Rhagair

1.	Cyflwyniad	3
2.	Canfod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol	4
2.1	Aelodau a chyflogeion	
2.2	Recriwtio	
3.	Ein Hamcanion	5
4.	Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	24
5.	Hyfforddiant	25
6.	Trefniadau caffael	26

Atodiadau

1.	Gwybodaeth Cyflogaeth – Ein Haelodau	27
2	Gwybodaeth Cyflogaeth – Ein Staff	29
	Ein Staff – Monitro'r rhywiau	
2.1	Swydd	32
2.2	Gradd	32
2.3	Cyflog	32
2.4	Math o gontract	33
2.5	Patrwm gweithio	33
3	Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf	34
4.	Cyflogeion sydd wedi ymgeisio am gael newid swydd o fewn yr Awdurdod gan nodi faint oedd yn llwyddiannus gyda'u cais a faint oedd yn aflwyddiannus	36
5.	Cyflogeion sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a faint oedd yn llwyddiannus gyda'u cais	38
6.	Cyflogeion a oedd yn rhan o weithdrefnau cwynion naill ai fel achwynydd neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei (h)erbyn	39
7.	Cyflogeion y defnyddiwyd gweithdrefnau disgyblu yn eu herbyn	39
8.	Cyflogeion a adawodd eu cyflogaeth gyda'r Awdurdod	39

Adran I - Cyflwyniad

Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei fabwysiadu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 28 Mawrth 2012. Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei gwblhau yn dilyn ymgysylltu'n uniongyrchol â chyrff yn y sector cyhoeddus, Cynghorau Cymuned a grwpiau â buddiant rhwng Tachwedd 2011 a diwedd Ionawr 2012. Fe ymgysylltodd y Cyngor â, ac fe geisiodd gymorth ac arweiniad ychwanegol gan Gynghorau Sir Fynwy a Phowys, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac Adran Ystadegau Demograffeg, Treftadaeth a Chydraddoldebau Llywodraeth Cymru a gynhyrchodd wybodaeth ystadegol a oedd yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2001.

Fe wnaeth Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol adnabod nifer o fylchau o ran casglu data ar gyfer Aelodau a chyflogeion yn enwedig ar hyfforddiant a chynhyrchu Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Cafodd ffurflenni monitro cydraddoldeb newydd eu cyflwyno yn 2012 ar gyfer Aelodau a staff a chafodd y ffurflenni presennol ar gyfer monitro prosesau recriwtio ar ein gwefan eu newid i wella'r modd y cesglir data.

Adran 2 - Canfod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol

2.1 Aelodau a chyflogeion

Mae'r ystadegau a ddarperir yn gyson â'r dull yn yr Adroddiad Blyneddol cyntaf lle mae'r Awdurdod wedi ceisio, wedi cofnodi ac wedi dadansoddi gwybodaeth gan Aelodau (Atodiad 1), cyflogeion (Atodiad 2) ac ymgeiswyr am swyddi (Atodiad 3) am y flwyddyn o 1 Ionawr 2014 hyd 31 Rhagfyr 2014, ac wedi cyhoeddi'r data yma fel yr wybodaeth fwyaf cyfoes sydd ar gael.

2.2 Recriwtio

Cafodd ffurflen newydd ar gyfer monitro cydraddoldeb mewn prosesau recriwtio ei chyflwyno ym mis Mai 2012 ac mae hon wedi galluogi'r Awdurdod i gynhyrchu gwybodaeth cydraddoldeb gywir ar gyfer pob nodwedd warchodedig (Atodiad 3). Er bod cywirdeb yr wybodaeth wedi gwella yn sgîl cyflwyno'r ffurflenni newydd fe ostyngodd y gyfradd ddychwelyd ar gyfer y Ffurflen Fonitro i ddechrau o 70% (2013) i 52%. Ar ddiwedd 2014 fe gyflwynwyd ffurflen ymgeisio a monitro ar-lein newydd ac fe gynyddodd y gyfradd ddychwelyd gyfartalog ar gyfer y swyddi gwag hynny yn dilyn ei chyflwyno i 84%.

Adran 3 - Ein Hamcanion

Amcan 1: Darparu hyfforddiant i aelodau a chyflogeion ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer y rhan fwyaf o'n haelodau a chyflogeion cyn ac yn dilyn cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn 2012 a hwnnw'n ymdrin â'u rolau a chyfrifoldebau, codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb a phwysigrwydd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Amcan 2: Cyflwyno proses sgrinio cydraddoldeb ac asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer holl adroddiadau'r Awdurdod

Cafodd Ffurflenni Sgrinio Cydraddoldeb eu cyflwyno ym mis Mehefin 2012 ar gyfer yr holl adroddiadau a gyflwynir i bwyllgorau Archwilio a Chraffu a Chynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yr oedd yn ofynnol cael penderfyniad gan Aelodau yn eu cylch. Caiff y Ffurflenni Sgrinio Cydraddoldeb eu cwblhau gan Swyddogion, eu hadolygu gan Gyfarwyddwyr a'u cynnwys gyda'r holl adroddiadau i bwyllgorau a'u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Amcan 3: Trwy'r Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant bydd yr Awdurdod yn gweithio'n gynhwysol mewn partneriaethau lleol trwy ddatblygu partneriaethau a fydd yn helpu i gyrraedd cynulleidfia ehangach ac yn cynnwys sefydliadau â sgiliau i, a phrofiad o weithio gyda grwpiau wedi'u hallgau yn ogystal â'r rheiny a chanddynt rôl sy'n ymwneud â datblygu cymunedol neu economaidd

Caiff gweithgareddau sydd o gymorth i'r Awdurdod gyflawni'r amcan hwn eu nodi isod:

Yr Adran Cymunedau

Mosaic Wales

Mae'r prosiect hwn, a ddechreuodd ym mis Ionawr 2012, yn brosiect partneriaeth 3 blynedd a gyllidir yn bennaf gan y Gronfa Loteri Fawr, a arweinir gan Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol (CNP) ac sy'n cynnwys y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Gymdeithas Hostelaau Ieuencid. Mae swyddog prosiect rhan-amser a letyir gan Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol yn gweithio o leoliad mewn dinas er mwyn cael mynediad rhwydd at y cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a dargedir. Penodwyd Jasmin Chowdhury yn swyddog datblygu i weithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae hi wedi'i lleoli yng Nghaerdydd.



Elfennau'r prosiect:

- Meithrin galluoedd cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig,
- datblygu Hyrwyddwyr Cymunedol o blith cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
- newid sefydliadol mewn Awdurdodau Parc Cenedlaethol.

Yn ystod cyfnod y prosiect ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mae'r prosiect wedi:

- cynnal digwyddiadau trefol i hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol yng Nghaerdydd a Chasnewydd
- recriwtio 20 o Hyrwyddwyr Cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i weithio gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i hyrwyddo
- darparu hyfforddiant ar gyfer hyrwyddwyr e.e. codi arian i gyllido ymweliadau yn y dyfodol, arwain ymweliad
- arwain Ymweliadau gan Arweinwyr Grwpiau yn y parc i helpu Arweinwyr Grwpiau Cymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i ymgyswrtio â'r hyn sydd ar gael yn y Parc ac sy'n addas i'w grwpiau
- cynnal fforwm adborth blynyddol i ddarparu adborth ar gyfer yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

- Mae dros 400 o bobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleihafrifoedd Ethnig wedi mwynhau'r amgylchedd naturiol trwy gyfranogi mewn gweithgareddau o fewn y Parciau Cenedlaethol
- Galluogi Hyrwyddwyr Cymunedol i gael mewnbyn i bolisiau, penderfyniadau ac arferion Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Y GDC)

Cyfarfu panel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Y GDC) yn ystod wythnos gyntaf Gorffennaf 2014 ac fe gymeradwyodd dri phrosiect.

1. Rhoddwyd £15,000 i Glwb Hwyllo Llan-gors tuag at gost adeiladu clwb newydd. Mae'r clwb hwyllo, sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr, yn awyddus i hybu cyfranogiad yn y gamp ac mae'n cynnal diwrnodau blas ar hwyllo a sesiynau hyfforddi i rai iau. I gael mwy o wybodaeth gweler <http://www.llangorsesailing.com/index.aspx>.
2. Mae BRfm, gorsaf radio gymunedol ar ffin y Parc yn Nantyglo, wedi cael £3,204 i foderneiddio'i hoffer cyfrifiadurol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithio'n llwyddiannus.



I weld gweithgareddau'r orsaf radio gweler y fideo canlynol.
<http://www.youtube.com/watch?v=nOKGbXJBL74>.

3. Mae Canolfan Groeso'r Fenni bellach yn gweithredu o'r Ysgubor Ddegwm yn y Fenni ac fe gawson nhw £7,500 tuag at weithredu gwasanaethau i dwristiaid o'r lleoliad newydd hwn.

Sgiliau Gwledig

Trwy brosiect Llwybrau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol / Cyfoeth Naturiol Cymru fe ddarparodd ein staff unedau a achredir gan Agored Cymru ar gyfer ystod o grwpiau sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol. Rydym yn falch iawn o'r cyflawniad diweddaraf (er gwaethaf y tywydd!) gan y cyfranogwyr Drugaid sy'n gweithio tuag at uned mewn Sgiliau Coetiroedd ar hyn o bryd.



Diolch yn fawr i Ian a thîm Craig Y Nos am ein helpu i ddarparu hyn yn llwyddiannus.

Ceri Bevan Swyddog Cymunedau
Cynaliadwy

Myfyrwyr Coleg Powys yn Ennill Sgiliau Gwledig

Roedd yn bleser gan y Cynghorydd David Meredith gyflwyno'u tystysgrifau Agored Cymru mewn Ymwybyddiaeth o Gefn Gwlad i fyfyrwyr o Goleg Aberhonddu yn ystod ymweliad maes diweddar â chuddfan gwyllo adar newydd Llangasty.



Enillwyd y cymwysterau fel rhan o'r prosiect Sgiliau Gwledig sy'n cael ei redeg gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ac sydd wedi'i fwriadu i ddatblygu sgiliau, cynyddu hyder a chynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyfranogwyr am y Parc Cenedlaethol a'r amgylchedd.

Grant chwarae teg yn dwyn budd i bobl ifanc yn y parc

Mae'r grant 'Chwarae Teg yn y Parc' yn cefnogi grwpiau cymunedol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n profi caledi ariannol. Mae'r grant yn darparu cludiant i weithgareddau yn y Parc na fyddent yn gallu eu cyrraedd fel arfer. Yn ystod y

Diwrnod Gweithgareddau ym Mharc Gwledig Craig y Nos cymerodd dros 800 o ymwelwyr ran mewn gweithgareddau a oedd yn amrywio o Gyfeiriannu a Geo-gelcio i weiren wib ar draws y brif ddôl.

Cludiant Chwarae Teg i Ysgolion

Mae ysgolion sydd â nifer uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn aml heb arian i ddod â'u disgyblion i'n Parc Cenedlaethol oherwydd cost gynyddol y cludiant. Fe wnaeth ein prosiect Chwarae Teg hi'n bosibl rhoi cyllid i nifer o'r ysgolion hyn er mwyn iddynt dalu am gludiant gan alluogi disgyblion i gyfranogi mewn un o'n Cyrsiau Addysg.

Roedd yr holl ysgolion a gymerodd ran o gymunedau yn agos at y Parc Cenedlaethol gan gynnwys Abertawe, Castell-nedd, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr ac fe gyfranogodd dros 12 o ysgolion gyda thros 400 o ddisgyblion na fyddent wedi gallu ymweld â'r Parc fel arall yn gwneud hynny.

Fe wnaeth y cyllid alluogi disgyblion i fynychu cyrsiau ar yr amgylchedd, cynaliadwyedd, twristiaeth a bioamrywiaeth gan ddysgu am ein Parc Cenedlaethol ar yr un pryd. Rydym yn amcanu at roi cymorth tebyg yn y dyfodol gan ein bod yn sylweddoli pwysigrwydd sicrhau bod yr holl ysgolion yn cael y cyfle i brofi a dysgu am yr amgylchedd naturiol ar drothwy eu drws.

Y llynedd fe helpodd y grant dros 700 o bobl ifanc i gael mynediad at ystod o weithgareddau ledled y Parc Cenedlaethol.

Roedd buddiolwyr yn cynnwys clwb ieuenctid y Fenni a gymerodd ran mewn teithiau canwio a beicio mynydd, Grŵp Addysg yn y Cartref Llanddeusant a ymwelodd ag ogofâu Dan-yr-Ogof ar gyfer gwers ddaeareg ymarferol, a Grŵp 'Fortitude' Cymunedau yn Gyntaf Cynon Isaf a ddringodd i gopa uchaf y Parc Cenedlaethol, sef Pen-y-fan!



Cynhaliwyd diwrnod gweithgareddau llwyddiannus arall ym Mharc Gwledig Craig Y Nos fel rhan o Wyl Geoparc Fforest Fawr eleni. Roeddem yn gallu cynnig hwn fel digwyddiad rhad-ac-am-ddim eto gyda'r grant Chwarae Teg yn cyllido gweithgareddau ar y dydd. Sicrhaodd hyn fod llawer o bobl a theuluoedd lleol yn gallu dod i'r digwyddiad a hynny'n eu hannog i archwilio'r Parc Gwledig a'r Parc Cenedlaethol ehangach.



Darparwyd gweithgareddau gan gymaint â phosibl o grwpiau a sefydliadau lleol gan roi llwyfan iddynt hysbysebu eu gwaith eu hunain. Roedd y rhain yn cynnwys darparwyr gweithgareddau awyr agored, sefydliadau bywyd gwyllt a chadwraeth cenedlaethol, mudiadau gwirfoddol a hanes lleol, crefftwyr, grwpiau archeolegol a daearegol a chwarae naturiol.

Unwaith eto mae Parc Gwledig Craig Y Nos wedi profi'n lleoliad delfrydol ar gyfer y digwyddiad awyr agored hwn gan ei fod yn hygyrch, yn addas ar gyfer teuluoedd ac yn cynnwys tiroedd hardd.

Hyfforddeion Newydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cychwyn ar Brosiectau Cadwraeth a Threftadaeth.

Yn 2014 fe roddodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri gyllid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog er mwyn iddo allu darparu 12 hyfforddeiaeth â chyflog ym maes cadwraeth dros y tair blynedd nesaf.

Mae grant o £908,500 wedi cael ei roi dan raglen 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol' Cronfa Dreftadaeth y Loteri i'r bartneriaeth 'Sgiliau ar Waith' sy'n cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Mae'r prosiect yn cefnogi 12 hyfforddeiaeth â chyflog ar draws y tri sefydliad bob blwyddyn dros y tair blynedd nesaf, a fydd yn rhoi profiad gwaith ymarferol i unigolion mewn cadwraeth a rheoli ystadau ynghyd ag ennill cymhwyster Lefel 2 City and Guilds mewn rheoli cadwraeth.

Dechreuodd ein chwe hyfforddai ar gyfer y flwyddyn gyntaf ym mis Medi 2014 a hwythau'n gweithio ochr yn ochr â thimau wardeniaid/ceidwaid presennol ac maent eisoes wedi profi amrywiaeth eang o waith cadwraeth ymarferol a atgyfnerthir gan eu lleoliad coleg am un diwrnod yr wythnos yng Ngholeg Gwent ar Gampws Brynbuga.

Dyma Hyfforddeion 2014.....



Tom



Eleri



Nick



Jon



Ray



Matthew



Luke

Yn ychwanegol at waith ymarferol, mae amserlen hyfforddi brysur yn golygu bod yr holl hyfforddeion eisoes wedi cwblhau cyrsiau Iechyd a Diogelwch, cwrs Cymorth Cyntaf REC a hyfforddiant torrwr prysgwydd Lantra yn llwyddiannus. Ym mis Ionawr a mis Chwefror ceir hyfforddiant pellach gan gynnwys cyrsiau Llif Gadwyn, Plaleiddiaid, Tynnu Trelar ac Arweinydd Bryniau a Rhostiroedd.

Cafodd yr hyfforddeion y cyfle hefyd i ymweld â phrosiectau mewn cymunedau lleol a chael profiad ohonynt gan gynnwys ymweliad â'r Llinell o Wlân ym Mhen Trumau yn y Mynyddoedd Duon. Ar ôl cwrdd â'r artist Pip Woolf i gael trosolwg o'r prosiect ac i gynorthwyo gyda 'gwneud selsig' gwlân fe helpodd yr hyfforddeion i gario'r deunydd i'r safle lle cafodd ei ddiogelu i helpu i atal erydiad pridd pellach.



Prosiect addysgiadol arall i'r tîm fu cydweithio gydag Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Ym mis Medi, fe ymgyngheddodd yr hyfforddeion ochr yn ochr â wardeniaid goruchwyliol ac Archeolegydd y Parc Cenedlaethol, Natalie Ward, â gwaith helaeth i glirio eithin ar safle hen fryngaer o Oes yr Haearn, Pen Y Crug, Aberhonddu.



Cafodd eithin eu torri a'u cludo i Amgueddfa Werin Sain Ffagan lle maent wedi cael eu defnyddio ers hynny i doi ochr isaf Tŷ Crwn o Oes yr Haearn â gwellt. Mae'r tŷ crwn yn cael ei ail-greu fel rhan o brosiect 'Creu Hanes' yr Amgueddfa Werin sydd hefyd yn cael ei gyllido trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Ym mis Rhagfyr 2014 cafodd yr hyfforddeion y cyfle wedyn i ymweld â Sain Ffagan a chwrdd â thîm y prosiect Creu Hanes a mynd y tu ôl i'r llenni i weld â'u llygaid eu hunain ble'r oedd y deilliannau gwastraff wedi cael eu defnyddio ac i ddarganfod mwy am ddulliau hanesyddol o ddefnyddio eithin a thechnegau toi â gwellt.



Rydym yn edrych ymlaen at gefnogi'r hyfforddeion trwy weddill eu blwyddyn yn y Parc Cenedlaethol ac mae'r sgiliau y maent wedi'u hennill a'r profiadau y maent wedi'u cael trwy'r rhaglen yn eu helpu i gamu ymlaen yn eu dewis feysydd o ran Rheoli Cadwraeth.



Bydd y broses recriwtio ar gyfer lleoedd hyfforddeion yn 2015/16 yn cael ei chynnal ym mis Mai / Mehefin 2015.

Gwasanaethau Addysg

Profiad Gwaith

Bob blwyddyn rydym yn cynnig cyfle i bobl ifanc a chanddynt ddiddordeb yn yr amgylchedd gael profiad gwaith gyda ni am wythnos. Rydym yn cynnig rhaglen amrywiol i roi profiad mor eang â phosibl i'r disgyblion o'r mathau o waith a wneir gennym.



Francesca Bell, Swyddog Addysg (chwith) a Richard Mears, Rheolwr Adnoddau Dynol (pellaf ar y dde) gyda'n myfyrwyr Profiad Gwaith

Eleni roedd ein tîm profiad gwaith yn cynnwys disgyblion o Ysgol Uwchradd Crucywel, Ysgol Uwchradd Aberhonddu, Ysgol Gyfun Gwynllyw, Ysgol Glantaf ac Ysgol Uwchradd Gwernyfed. Fe ymunodd yr wyth o bobl ifanc (16-17 oed) â'n Wardeniaid a'n tîm Addysg am bedwar diwrnod yn ystod eu gwyliau haf. Roeddent yn rhan o brosiect ecoleg ar Fynydd Illtud, fe helpon nhw i gynnal ac ailadeiladu llwybr troed yn Aberhonddu ac fe helpon nhw gyda datblygiad pellach yr Ardd Bywyd Gwylt newydd yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol lle'r oedd rhai ohonynt wedi bod yn helpu yn ystod gwibdaith ysgol y flwyddyn flaenorol. Fe ddysgon nhw hefyd am gynllunio, mapio GIS ac fe helpon nhw i adeiladu dwy ardal ym Mharc Gwledig Craig Y Nos ar gyfer cychod gwenyn newydd.



Hefyd eleni, fe ddefnyddiodd yr holl ddisgyblion eu hamser gyda'r Parc Cenedlaethol i gwblhau Gwobr Darganfod John Muir. Rhoddir hon i bobl yn gydnabyddiaeth am y gwaith y maent wedi'i wneud i ofalu am natur, y dirwedd a'r amgylchedd naturiol. Caiff y wobr hon ei chydnabod yn genedlaethol.

'Roedd gwneud gwobr John Muir yn wych a bydd yn dda cael ychwanegu hyn at fy CV.'

Martha Powell, Ysgol Uwchradd Aberhonddu

Ysgolion Llysgennad y Parc Cenedlaethol

Gan weithio mewn partneriaeth gydag athrawon mewn ysgolion cynradd lleol, mae tîm Addysg yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi datblygu adnoddau newydd i athrawon eu defnyddio wrth grwydro o gwmpas y Parc. Mae'r gwersi newydd yn seiliedig ar annog plant a'u hathrawon i ddatblygu hyder mewn dysgu yn yr awyr agored. Mae'r gwersi'n cael eu cynllunio'n ofalus i ateb gofynion y cwricwlwm a byddant yn cefnogi Eco Sgolion, Ysgolion Iach a chyfranogiad yng nghynllun Gwobr John Muir. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Crucywel, Ysgol Gynradd Gymunedol Talgarth ac Ysgol Plant Iau Mount Street eisoes yn gweithredu'r cynllun. Gallwch fwrw golwg ar eu ffilm fer ar ein gwefan www.beacons-npa.gov.uk/learning i gael gwybod mwy am Ysgolion Llysgennad y Parc Cenedlaethol.




Hayley Sharp, Swyddog Addysg (chwith) a'r Cyngh. Ann Webb (trydydd o'r dde) gyda phlant ac athrawon Ysgol Gynradd Gymunedol Crucywel, Ysgol Gynradd Gymunedol Talgarth ac Ysgol Plant Iau Mount Street

Wardeniaid a Hawliau Tramwy

Gwelliannau o ran mynediad yng nghuddfan gwylio adar Llangasty

Yn dilyn adeiladu'r cuddfan gwylio adar newydd yn Llangasty yn 2012 fe wnaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog welliannau o ran mynediad yn 2014 i wneud y cuddfan gwylio adar yn hygyrch i bawb. Trwy greu llawr caled ar gyfer parcio a llwybr ag wyneb gyda gât ar gyfer mynediad rhwydd fe wnaethom y cuddfan gwylio adar yn gyfleuster y gall pobl â phroblemau symudedd ei ddefnyddio yn ogystal â phobl heb broblemau o'r fath. Ceir mynediad trwy gytundeb y tirfeddiannwr cyfagos sydd wedi caniatáu i ddefnyddwyr gael mynediad at y cuddfan gwylio adar gan ddefnyddio trac ar draws y tir.



Rwyf wedi ymweld â Bannau Brycheiniog yn ddiweddar ac yn y bwthyn gwyliau fe ddes i o hyd i gopi o'ch llyfryn ar fannau i ymweld â hwy lle ceir mynediad rhwyddach. Gan fod fy ngŵr yn cael trafferth cerdded yn enwedig dros dir garw roedd y llyfryn hwn yn ddefnyddiol iawn. Mae'n amlwg yn seiliedig ar waith ymchwil da iawn ac fe wnaeth ein galluogi i fynd am dro cerdded byr at raeadr na fyddem wedi ei gweld fel arall. Byddai'n dda gennyf pe gellid cyflwyno cyhoeddiad tebyg ar draws y wlad i gyd gan fod llawer o bobl a fyddai'n croesawu'r cyfle i fynd am dro cerdded byr heb orfod poeni am lethrau, camfeydd ac ati. Diolch a da iawn chi.

Cofion, Lynne Davies

Grŵp Gwirfoddolwyr Ucheldir Canol Dwyrain Bannau Brycheiniog

Mae llwyddiant enfawr Gwirfoddolwyr Ucheldir y Mynyddoedd Duon sy'n helpu'r Awdurdod i fonitro a chynnal a chadw'r rhwydwaith mawr o lwybrau mynyddig wedi amlygu'r angen i sefydlu grwpiau pellach mewn ardaloedd sydd dan bwysau mawr o ganlyniad i ymwelwyr.

Meddai'r Swyddog Cadwraeth Cynorthwyol Jason Rees "Mae Canol Dwyrain Bannau Brycheiniog yn lleoliad delfrydol i sefydlu chwaer-grŵp i Gynllun y Mynyddoedd Duon. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr sy'n barod i'n helpu i gyflawni tasgau ymarferol i gynnal a chadw'r llwybrau megis clirio draeniau, taflu deunydd rhydd, atgyweirio cerrig palmant a charegwaith, yn ogystal â monitro ac ymgysylltu'n frwd ag aelodau o'r cyhoedd allan ar y mynyddoedd i amlygu eu gwaith".



Twristiaeth

"Caiff grym y mudiad Cynghreiriau Gwledig ei enghreifftio yn y fenter cludiant cymunedol i ddarparu gwasanaeth bws rhwng Henffordd a'r Gelli Gandryll. Mae toriadau yng nghyllidebau Awdurdodau Lleol yn golygu gostyngiad mewn gwasanaethau cludiant gwledig; fodd bynnag fe arweiniodd hyn at bartneriaeth rhwng Siambr Fasnach y Gelli Gandryll, Grŵp Twristiaeth y Gelli Gandryll, Rail Herefordshire a Herefordshire Ramblers a fedrodd gasglu arian ar ffurf cyfraniadau i gynnal y gwasanaeth bws.



Gyda chymorth ariannol gan y Cyngbreiriau Gwledig, fe gomisiynodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol astudiaeth i ddangos sut y gellid dechrau, cyllido a gweithredu gwasanaeth bws cymunedol. Bydd y bws yn codi tâl ond roedd y cyfraniadau cychwynnol yn allweddol o ran cynnal gweithrediad y gwasanaeth twristaidd a lleol hwn, partneriaeth wirioneddol rhwng y gymuned wledig a busnesau lleol. Mewn gwirionedd mae'r gwasanaeth bws yn welliant ar yr un gwreiddiol gydag amseroedd cyrraedd ac ymadael y bws yn cael eu trefnu fel eu bod yn cyd-daro ac amseroedd y gwasanaethau trenau yn Henffordd. Nid yw'r prosiect wedi osgoi sylw cymunedau cyfagos sydd eisoes mewn trafodaethau ynghylch dilyn y dull cymunedol hwn o ymdrin â thoriadau i gludiant cyhoeddus."

Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Ardal Chwarae

Bydd Canolfan Ymwelwyr yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn Libanus sy'n adnabyddus i lawer fel y 'Ganolfan Fynydd' yn llawer mwy deniadol i ymwelwyr iau o ganlyniad i osod ardal chwarae antur newydd.

Meddai Andrea Mansfield, Rheolwr y Ganolfan Ymwelwyr "Mae'r ardal chwarae antur newydd yn sicr wedi cael sêl bendith ein hymwelwyr iau o ystyried faint y mae'r offer wedi cael ei ddefnyddio'n barod. Mae'n lleoliad delfrydol o flaen yr ystafelloedd te gan fod mamau a thadau'n gallu bachu diod gan ddal i allu cadw llygad barcud ar eu plant yn chwarae".



Yr Ardd Bywyd Gwyllt

Mae'r ardd wedi cael ei chyllido a'i chefnogi gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a thros y flwyddyn ddiwethaf mae llawer o sefydliadau wedi bod yn rhan o greu'r ardd bywyd gwyllt yn y Ganolfan. Mae'r rhain yn cynnwys

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Brycheiniog, Ysgolion Uwchradd Gwernyfed ac Aberhonddu, Cadwch Gymru'n Daclus, y Gwasanaeth Prawf a gwirfoddolwyr a staff y Parc Cenedlaethol. Gobeithir y bydd yr ardd hon yn ysbrydoli pobl i wneud eu gerddi eu hunain yn fwy cyfeillgar i wahanol fathau o fywyd gwylt – hyd yn oed os mai lle cyfyngedig sydd ganddynt. Mae'r pwll bywyd gwylt yn ffynnu bellach ac mae wedi dod yn fagned i rianedd y dŵr, chwilod plymio, brogaod, gweision y neidr, madfallod y dŵr, malwod pwll a llawer mwy.



Mae gwirfoddolwyr a staff wedi bod yn creu cynefinoedd bwystfilod bychain a llwyfannau archwilio pwll i Wasanaeth Addysg y Parc Cenedlaethol eu defnyddio gyda grwpiau ysgolion.

Clwb Archeolegwyr Ifainc Bannau Brycheiniog

Mae cangen yr Awdurdod Parc Cenedlaethol o'r Clwb Archeolegwyr Ifainc wedi bod yn rhedeg am dros flwyddyn. Mae Clwb Archeolegwyr Ifainc Bannau Brycheiniog yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc 8-16 oed ymgysylltu ag archeoleg a threftadaeth y Parc Cenedlaethol, a thu hwnt i hynny, cael eu hysbrydoli a'u cyffroi ganddo, a chael eu grymuso i helpu i drefnu ei ddyfodol.




Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Clwb wedi bod yn ymchwilio i fywyd milwyr lleol a fu'n brwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf; yn archwilio treftadaeth galch anghofiedig y Parc Cenedlaethol; yn dringo i fryngaer Pen-y-Crug i ddysgu am fywyd ein cyndeidiau o Oes yr Haearn; ac yn cymryd rhan yn ei gloddiad archeolegol cyntaf (cyfle nad yw ar gael yn aml i rai dan 16).

Caiff y Clwb ei redeg gan grŵp o 10 arweinydd, sy'n rhoi o'u hamser i'r Clwb yn wirfoddol, dan reolaeth gyffredinol Swyddog Treftadaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae gan y Clwb 30 o aelodau ar hyn o bryd, ac mae'n tyfu drwy'r amser. Mae'r aelodaeth yn dod o ardal fawr, o Swydd Henffordd yn y Dwyrain, mor bell i'r Gorllewin â Llambled, o Flaenau'r Cymoedd yn y de a Llanfair-ym-Muallt yn y gogledd. Mae'r Clwb yn denu aelodau o ystod eang o gefndiroedd, gan gynnwys y rhai nad ydynt mewn addysg brif ffrwd a phlant ag anawsterau dysgu neu anghenion addysgol arbennig eraill.

Amcan 4: Gweithio gyda grwpiau Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar i gynnwys symbolau safonol yn ein harweinyfrau i Ymwelwyr

Fe ffurfiodd yr Awdurdod gyswllt cychwynnol â grwpiau a chanfu y byddai angen cyllid i'r grwpiau allu canlyn arni â hyn. Fodd bynnag, mae swyddogion wedi bod yn archwilio ffyrdd eraill o hybu'r gwaith yma gan gynnwys cymorth i Wyl Gerdded Crucywel sydd wedi arwain at gynnwys teithiau / gweithgareddau penodol ar gyfer pobl ag anableddau a defnyddio symbolau hygyrchedd i gadeiriau olwyn i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau hyn. Hefyd mae fersiwn diwygiedig y llyfryn "What to see from the National Park Visitor Centre" yn cynnwys gwybodaeth am fynediad ar gyfer cadeiriau olwyn a chyfleusterau o ran dolenni clywed.



Amcan 5: Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Grŵp Mynediad Brycheiniog i sgrinio Datganiadau Dyluniad a Mynediad a gyflwynir gyda Cheisiadau Cynllunio

Mae gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Gytundeb Lefel Gwasanaeth parhaus gyda Grŵp Mynediad Brycheiniog sy'n ymgynghorai anstatudol o fewn y broses gynllunio. Mae'r Grŵp Mynediad yn rhoi cyngor a sylwadau i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar geisiadau cynllunio sy'n cynnwys Datganiadau Dylunio a Mynediad o fewn a'r tu allan i Ardal Brycheiniog.

Amcan 6: Gwybodaeth Cyflogaeth mewn perthynas ag Aelodau a staff ar draws yr ystod o nodweddion gwarchodedig

O 1 Ebrill 2012 cafodd Ffurflenni Monitro Cydraddoldeb newydd eu cyflwyno i Aelodau, cyflogeion ac ar y cam recriwtio sy'n cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae hyn wedi galluogi'r Awdurdod i gynhyrchu gwybodaeth gyfoes sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn ar gyfer staff ac Aelodau. Mae ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth Recriwtio wedi gwella yn sgîl cyflwyno'r ffurflenni monitro newydd er ein bod yn cydnabod hefyd bod y gyfradd dychwelyd wedi gostwng (Atodiad 3)

Amcan Newydd 7: Gweithio tuag at ddod yn sefydliad sy'n gyfeillgar i ddementia.

Yn y CCB ym mis Mehefin 2014, cytunodd Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn unfrydol y byddai'n amcanu at fod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Cyfeillgar i Ddementia cyntaf yn y DU. Rhoddodd y Cadeirydd ar y pryd, Mrs Julie James ei haddewid a'i hymrwymiad i ganlyn arni â hyn. Yn y misoedd dilynol daeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn aelod o Gymuned Gyfeillgar i Ddementia Aberhonddu a'r Gelli Gandryll ac yn rhan o'r Cynghrair Gweithredu ar Ddementia Lleol. Ym mis Awst 2014 fe wnaeth Cymdeithas Alzheimer's gydnabod Aberhonddu'n swyddogol fel y gymuned gyntaf yng Nghymru i fod yn 'Gweithio tuag at ddod yn gyfeillgar i ddementia'.



Ch i'r Dd. Y Cyngh. Paul Ashton, Mrs Melanie Doel (Dirprwy Gadeirydd), Mrs Rhiannon Davies, Mrs Julie James ac Elizabeth Lewis (Swyddog Adnoddau Dynol)

Ym mis Tachwedd 2014 darparodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol y cynllun gweithredu ar gyfer yr aelodau, a hwnnw'n cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff ac fe hysbysodd Rhiannon Davies, Cadeirydd Cymuned Gyfeillgar i Ddementia Aberhonddu yr Awdurdod fod y Parc Cenedlaethol bellach yn cael ei gydnabod yn swyddogol fel un sy'n 'Gweithio tuag at ddod yn gyfeillgar i ddementia'. Mae Cymuned Gyfeillgar i Ddementia Aberhonddu a'r Gelli Gandryll yn gobeithio y bydd brwdfrydedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn helpu i ysbrydoli busnesau a sefydliadau eraill ledled Bannau Brycheiniog i ddod yn gyfeillgar i ddementia.

"Mae hwn yn gyflawniad gwych i bawb sydd wedi chwarae rhan. Mae Awdurdod Parc Bannau Brycheiniog wedi dangos ei ymrwymiad o'r dechrau un, felly mae'n gwbl briodol ei fod yn un o'r sefydliadau cyntaf yng Nghymru i ennill y statws hwn."

Rhiannon Davies, Cadeirydd Cymuned Gyfeillgar i Ddementia Aberhonddu

"Erbyn 2015 bydd dros 45,000 o bobl yn byw gyda dementia yng Nghymru. Mae unigolion, sefydliadau a busnesau'n cofleidio'r angen i ddeall sut i gefnogi pobl â dementia er mwyn iddynt allu cynnal eu hannibyniaeth a pharhau i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Rydym wrth ein bodd bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'i uchelgais i ddod yn gyfeillgar i ddementia ac rydym yn gobeithio bod hyn yn

golygu y bydd mwy o bobl yr effeithir arnynt gan ddementia'n teimlo'u bod yn cael cymorth i fwynhau cefn gwlad hyfryd Bannau Brycheiniog. Dymunaf bob llwyddiant i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda'i nod i fod y Parc Cenedlaethol Cyfeillgar i Ddementia cyntaf yn y DU a gobeithio y bydd Awdurdodau Parc Cenedlaethol eraill yn dilyn yn ôl eu traed."

Sue Phelps, Cyfarwyddwr Cymdeithas Alzheimer's Cymru

"Mae'n destun balchder mawr i mi allu cymeradwyo gwaith y Cyngh. Paul Ashton, Mrs Julie James ein Cyn-Gadeirydd, Elizabeth Lewis ein Swyddog Adnoddau Dynol a'r diweddar Huw Price, ein Swyddog Cymunedau am eu gwaith mewn partneriaeth gyda'r Cynghrair Dementia Lleol i ganlyn arni â'n hymrwymiad i ddod yn gyfeillgar i ddementia. Rydym bellach yn falch o arddangos y symbol 'Gweithio i ddod yn gyfeillgar i ddementia' a gydnabyddir yn genedlaethol. Rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau partneriaeth allweddol a darparwyr twristiaeth trwy Lysgenhadon y Parc a rhwydweithiau'r Cynghreiriau Gwledig i hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan cyfeillgar i ddementia. Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw mai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fydd y Parc Cenedlaethol cyntaf i gael ei gydnabod yn genedlaethol fel un cyfeillgar i ddementia, ac y bydd wedyn yn gweithredu fel enghraifft flaenllaw ar gyfer arfer gorau mewn cymunedau sy'n gefnogol i ddementia ."

Mrs Melanie Doel, Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Adran 4 Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

4.1 Adrodd

Yn 2012 fe gyflwynodd yr Awdurdod broses sgrinio i Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'r holl adroddiadau yr oedd angen penderfyniad gan Aelodau yn eu cylch ym mhwyllgor Archwilio a Chraffu a, lle y bo'n briodol, pwyllgor Cynllunio a Hawliau Tramwy yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Byddai pob adroddiad gan swyddog yn cael ei ategu gan ffurflen sgrinio ar gyfer materion Cydraddoldeb. Lle mae'r ffurflen sgrinio'n nodi bod risg sylweddol i nodwedd warchodedig mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ofynnol. Mae pob un o'r asesiadau sgrinio hyn yn cael eu cynnwys yn y papurau sy'n cyd-fynd ag Agenda'r Pwyllgor.

4.2 Hyfforddiant

I ategu'r gofyniad newydd hwn cafodd aelodau a swyddogion hyfforddiant cydraddoldeb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Adran Adnoddau Dynol yn y drefn honno.

Adran 5 Hyfforddiant

Cafodd dwy sesiwn hyfforddi i Aelodau a Chyfarwyddwyr eu darparu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rhwng Ionawr a Mawrth 2012 cyn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol gael ei fabwysiadu. Cafodd trydydd gweithdy ei ddarparu ym mis Rhagfyr 2012 oherwydd y newidiadau mewn aelodaeth yn dilyn etholiadau llywodraeth leol a hyd yma mae 15 o Aelodau wedi mynychu gweithdai cydraddoldeb a ddarparwyd gan yr Awdurdod hwn.

Cafodd staff yr oedd eu cyfrifoldebau'n cynnwys ysgrifennu adroddiadau a chyflenwi gwasanaethau hyfforddiant yn ystod y cyfnod o Ebrill – Mehefin 2012 gyda gweithdy pellach yn cael ei ddarparu ym mis Hydref 2012. Yn ystod y saith gweithdy hwnnw cafodd 56 aelod o staff hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a chafodd 7 cyflogai arall hyfforddiant yn 2013.

Yn ogystal â'r hyfforddiant a ddarparwyd i ategu'r broses o gyflwyno a mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant ar gyfer cyflogaion ar gynhwysiant cymdeithasol, ymwybyddiaeth o fod yn fyddar ac ymwybyddiaeth o anabledd.

Adran 6 Trefniadau caffael

Er nad oes gan yr Awdurdod unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer ystyried materion cydraddoldeb trwy ein polisiâu ac arferion caffael cyfredol mae'r holl adroddiadau gan Swyddogion y mae'n ofynnol cael penderfyniad gan Aelodau arnynt mewn perthynas â chaffael yn mynd trwy broses sgrinio gan ddefnyddio'r broses sgrinio ar gyfer cydraddoldeb. Yn yr un modd, pan fo'r Awdurdod yn caffael gwasanaethau allanol rydym yn sicrhau bod rhai nodweddion gwarchodedig penodol yn cael ystyriaeth lawn e.e. darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg ac anabledd gan gynnwys mynediad a gwasanaethau gwybodaeth a.y.b.

Atodiadau

I. Gwybodaeth Cyflogaeth – Ein haelodau

Cafodd y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ei chwblhau gan 96% o'n haelodau – 22 o ymatebion.

Rhywedd

	Cyfanswm
Gwrywod	73.91%
Benywod	26.09%
	100.00%

Oedran

Ystod Oedran	%
16-21	0.00%
22-30	0.00%
31-40	0.00%
41-50	13.64%
51-60	31.82%
60+	54.55%
Cyfanswm	100.00%

Anabled

	%
Oes	0.00%
Nac oes	100.00%
Ddim yn dymuno datgelu	0.00%
	100.00%

Cyfeiriadedd Rhywiol

	%
Deurywiol	4.55%
Hoyw / Lesbiaidd	4.55%
Heterorywiol	81.82%
Trawsryweddol	0.00%
Ddim yn dymuno datgelu	9.09%
	100.00%

Statws Priodasol

	%
Priod	81.82%
Partneriaeth Sifil	0.00%
Yn cyd-fyw	0.00%
Sengl	0.00%
Arall	18.18%
	100.00%

Hil

Mae 100% o'n Haelodau o gefndir Gwyn-Prydeinig

Ailbennu rhywedd – Nid oes unrhyw Aelodau sydd wedi cael gweithred ailbennu rhywedd

Crefydd

	%
Mwslim	0.00%
Bwdhydd	4.55%
Hindŵ	0.00%
Sikh	0.00%
Iddew	0.00%
Cristion	72.73%
Arall	0.00%
Ddim yn dymuno datgelu	18.18%
Dim (Anffyddiwr)	4.55%
	100.00%

2 Gwybodaeth cyflogaeth - Ein staff:

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol darparu'r wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Mae'n rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol:

- Nifer y bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn fesul nodwedd warchodedig
- Niferoedd y dynion a'r menywod a gyflogir, wedi'u rhannu yn ôl:
 - Swydd
 - Gradd (lle mae systemau graddio'n bodoli)
 - Cyflog
 - Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a chontractau am gyfnod penodol)
 - Patrwm gweithio (gan gynnwys llawn-amser, rhan-amser a phatrymau gweithio hyblyg eraill)
- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf
- Cyflogeion sydd wedi ymgeisio am gael newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi faint oedd yn llwyddiannus gyda'u cais a faint oedd yn aflwyddiannus
- Cyflogeion sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a faint oedd yn llwyddiannus gyda'u cais
- Cyflogeion a gwblhaodd yr hyfforddiant
- Cyflogeion a oedd yn rhan o weithdrefnau cwynion naill ai fel achwynydd neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei (h)erbyn
- Cyflogeion y defnyddiwyd gweithdrefnau disgyblu yn eu herbyn
- Cyflogeion sydd wedi gadael cyflogaeth awdurdod

Mae'n rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r gwahanol grwpiau gwarchodedig. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data ar swydd, graddfa, cyflog, math o gontract a phatrwm gweithio, y mae'n rhaid ei rannu dim ond mewn perthynas â dynion a menywod.

Nifer y bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn fesul nodwedd warchodedig

Er mwyn cysondeb ac i ddarparu ffigyrau cyfoes mae'r Awdurdod wedi darparu gwybodaeth ystadegol hyd at a chan gynnwys 31 Rhagfyr 2014 = 128 o gyflogeion (gan gynnwys 6x Warden Dan Hyfforddiant wedi'u hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, staff ar absenoldeb mamolaeth a secondiad)

Cwblhaodd 94% o'r cyflogeion y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb – 121 o ymatebion.

Rhywedd

	Cyfanswm
Gwrywod	36.7%
Benywod	63.3%
	100.0%

Proffil oedran:

Ystod Oedran	%
16-21	1.63%
22-30	13.01%
31-40	30.08%
41-50	30.89%
51-60	17.07%
60+	7.32%
Cyfanswm	100.00%

Anabledd – mae 8.4% wedi datgan bod ganddynt anabledd

Mamolaeth – mae 1 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

Statws priodasol

	%
Priod	53.78%
Partneriaeth Sifil	0.00%
Yn cyd-fyw	18.49%
Sengl	3.36%
Arall	24.37%
Cyfanswm	100.00%

Crefydd neu gred

	%
Bwdhydd	0.84%
Cristion	48.74%
Arall	7.56%
Ddim yn dymuno datgelu	17.65%
Dim (Anffyddiwr)	25.21%
	100.00%

Cyfeiriadedd rhywiol

Staff	%
Hoyw / Lesbiaidd	0.84%
Heterorywiol	84.87%
Ddim yn dymuno datgelu	14.29%
	100.00%

Tarddiad Ethnig

Staff	%
Gwyn – Prydeinig	94.21%
Gwyn – Gwyddelig	0.83%
Gwyn – Arall	3.31%
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	1.65%
	100.00%

Ailbennu rhywedd – Nid oes unrhyw gyflogeion sydd wedi cael gweithred ailbennu rhywedd

Monitro'r rhywiau yn ôl;

2.1 Swydd

Oherwydd y nifer fawr o swyddi o fewn yr Awdurdod, y mae nifer ohonynt yn cael eu llenwi gan aelod unigol o staff, nid yw swyddi'n cael eu monitro yn ôl rhywedd.

2.2 Gradd

Gradd	G	B	Cyfanswm	Gwrywod %	Benywod %	Cyfanswm y Graddau
1	5	5	10	50.00%	50.00%	7.81%
2	1	1	2	50.00%	50.00%	1.56%
3		3	3	0.00%	100.00%	2.34%
4		5	5	0.00%	100.00%	3.91%
5	5	12	17	29.41%	70.59%	13.28%
6	5	12	17	29.41%	70.59%	13.28%
7	3	1	4	75.00%	25.00%	3.13%
8	2	13	15	13.33%	86.67%	11.72%
9	8	13	21	38.10%	61.90%	16.41%
10	2	3	5	40.00%	60.00%	3.91%
11	2	2	4	50.00%	50.00%	3.13%
12	4	5	9	44.44%	55.56%	7.03%
13	3	3	6	50.00%	50.00%	4.69%
14	2	1	3	66.67%	33.33%	2.34%
15	1	2	3	33.33%	66.67%	2.34%
Prif Swyddogion	3	0	3	100.00%	0.00%	2.34%
Prif Weithredwr	1	0	1	100.00%	0.00%	0.78%
	47	81	128	36.72%	63.28%	100.00%

2.3 Cyflog

Mae dau gynllun tâl yn weithredol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar hyn o bryd. Fe weithredodd yr Awdurdod Statws Sengl ym 1997 a chaiff graddau a lefelau cyflogau cyflogeion nad ydynt yn Brif Swyddogion o fewn yr Awdurdod eu pennu gan ddefnyddio cynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC). Cafodd cyflogau ar gyfer Prif Swyddogion eu gwerthuso gan ddefnyddio Cynllun Hay yn 2007.

Cafodd archwiliad cyflog cyfartal ei gwblhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-2012 a chafodd ei gynnwys yn Adroddiad Cydraddoldeb 2013.

2.4 Math o gontract

Nifer	Parhaol	Cyfnod Penodol	Cyfanswm
Gwrywod	38	9	47
Benywod	73	8	81
Cyfanswm	111	17	128
%	87%	13%	100%

Ar 31 Rhagfyr 2014 roedd 17 o gyflogeion (gan gynnwys 6 Warden Dan Hyfforddiant wedi'u hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri) a oedd yn gweithio ar gontractau cyfnod penodol.

2.5 Patrwm gweithio

Nifer	Llawm-amser	Oriau Gostyngol	Cyfanswm
Gwrywod	41	6	47
Benywod	46	35	81
Cyfanswm	87	41	128
%	67.97%	32.03%	128

Mae 14.63% o'r cyflogeion gwrywaidd yn gweithio oriau gostyngol (h.y. llai na 37 awr yr wythnos) a 47.12% o'r cyflogeion benywaidd yn gweithio oriau gostyngol.

3. Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf

Rhwng 1 Ionawr 2014 a 31 Rhagfyr 2014 fe recriwtiodd yr Awdurdod i 19 swydd wag (gan gynnwys 6 x Warden Dan Hyfforddiant wedi'u hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri). Fe gawsom 286 o geisiadau y cafodd 150 (52%) o ffurflenni monitro cydraddoldeb eu cwblhau ar eu cyfer.

Oedran a Rhywedd

Ystod Oedran	Gwrywod	Benywod	Cyfanswm	%
16-21	20	3	23	15.33%
22-30	43	26	69	46.00%
31-40	10	16	26	17.33%
41-50	10	11	21	14.00%
51-60	4	6	10	6.67%
60+	1		1	0.67%
Cyfanswm	88	62	150	100.00%

Anabled

Staff	Gwrywod	Benywod	Cyfanswm	%
Oes	9	3	12	8.00%
Nac oes	79	59	138	92.00%
Cyfanswm	88	62	150	100.00%

Cyfeiriadedd rhywiol

	Gwrywod	Benywod	Cyfanswm	%
Deurywiol	3	1	4	2.67%
Hoyw / Lesbiaidd	1	1	2	1.33%
Heterorywiol	67	50	117	78.00%
Ddim yn dymuno datgelu	17	10	27	18.00%
Cyfanswm	88	62	150	100.00%

Statws priodasol

	Gwrywod	Benywod	Cyfanswm	%
Priod	11	17	28	18.67%
Yn cyd-fyw	16	11	27	18.00%
Arall	61	34	95	63.33%
Cyfanswm	88	62	150	100.00%

Hil / Tarddiad ethnig

	Gwrywod	Benywod	Cyfanswm	%
Gwyn - Prydeinig	86	54	140	93.33%
Gwyn - Arall	1	6	7	4.67%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd	1	2	3	2.00%
	88	62	150	100.00%

Ailbennu rhywedd – Nid oedd unrhyw ymgeiswyr sydd wedi cael gweithred ailbennu rhywedd

Crefydd neu gred

	Gwrywod	Benywod	Cyfanswm	%
Mwslim	1		1	0.67%
Bwdhydd		1	1	0.67%
Hindŵ		1	1	0.67%
Iddew	1		1	0.67%
Cristion	22	21	43	28.67%
Arall	9	4	13	8.67%
Ddim yn dymuno datgelu	19	16	35	23.33%
Dim (Anffyddiwr)	36	19	55	36.67%
Cyfanswm	88	62	150	100.00%

4. Cyflogeion sydd wedi ymgeisio am gael newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi faint oedd yn llwyddiannus gyda'u cais a faint oedd yn aflwyddiannus

Fe ymgeisiodd wyth o gyflogeion am gael newid swydd o fewn yr Awdurdod yn ystod y cyfnod hwn ac roedd pum cyflogai'n llwyddiannus (62.5%).

Oedran a Rhywedd

Ystod Oedran	Gwrywod	Benywod	Cyfanswm	%
16-21			0	0.00%
22-30	1	3	4	50.00%
31-40		2	2	25.00%
41-50		2	2	25.00%
51-60			0	0.00%
60+			0	0.00%
Cyfanswm	1	7	8	100.00%

Anabledd

	Cyfanswm	%
Oes	0	0.00%
Nac oes	8	100.00%
Ddim yn dymuno datgelu	0	0.00%
	8	100.00%

Cyfeiriadedd rhywiol

Staff	Cyfanswm	%
Deurywiol	0	0.00%
Hoyw / Lesbïaidd	0	0.00%
Heterorywiol	6	75.00%
Trawsryweddol	0	0.00%
Ddim yn dymuno datgelu	2	25.00%
	8	100.00%

Statws priodasol

	Cyfanswm	%
Priod	4	50.00%
Partneriaeth Sifil	0	0.00%
Yn cyd-fyw	0	0.00%
Sengl	0	0.00%
Arall	4	50.00%
Cyfanswm	8	100.00%

Hil / Tarddiad ethnig

Staff	Cyfanswm	%
Gwyn - Prydeinig	7	87.50%
Gwyn - Arall	1	12.50%
	8	100.00%

Ailbennu rhywedd – Nid oedd unrhyw ymgeiswyr mewnol sydd wedi cael gweithredu ailbennu rhywedd

Crefydd neu gred

	Cyfanswm	%
Cristion	3	37.50%
Ddim yn dymuno datgelu	3	37.50%
Dim (Anffyddiwr)	2	25.00%
	8	100.00%

5. Cyflogeion sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a faint oedd yn llwyddiannus gyda'u cais

Mae'r Awdurdod yn cofnodi'r holl geisiadau am hyfforddiant a gaiff eu sancsiynu gan Reolwyr Llinell a Chyfarwyddwyr. Nid yw'n cofnodi ceisiadau aflwyddiannus. Nid yw Cronfa Ddata Hyfforddiant yr Awdurdod yn cofnodi gwybodaeth bersonol benodol.

Ar gyfer y flwyddyn rhwng 1 Ionawr 2014 a 31 Rhagfyr 2014 mynychodd cyflogeion 296 o ddigwyddiadau hyfforddi (Sylwer – 1 aelod o staff yn mynychu digwyddiad = 1 a 10 aelod o staff yn mynychu 1 digwyddiad hyfforddi = 10)

Roedd 296 o ddigwyddiadau hyfforddi – mynychwyd 159 gan gyflogeion gwrywaidd (54%) a 137 gan gyflogeion benywaidd (46%).

6. Cyflogeion a oedd yn rhan o weithdrefnau cwynion naill ai fel achwynydd neu fel rhywun y gwnaed cwyn yn ei (h)erbyn

Nid oedd unrhyw gyflogeion yn rhan o weithdrefn gwynion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2014 a 31 Rhagfyr 2014.

7. Cyflogeion y defnyddiwyd gweithdrefnau disgyblu yn eu herbyn

Ni ddefnyddiwyd gweithdrefnau disgyblu yn erbyn unrhyw gyflogeion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2014 a 31 Rhagfyr 2014.

8. Cyflogeion a adawodd eu cyflogaeth gyda'r Awdurdod

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2014 a 31 Rhagfyr 2014 fe adawodd 21 o gyflogeion yr Awdurdod.

Oedran a Rhywedd

Ystod Oedran	G	B	Cyfanswm	%
16-21			0	0.00%
22-30	1	5	6	28.57%
31-40	3	1	4	19.05%
41-50	3	2	5	23.81%
51-60		2	2	9.52%
60+	2	2	4	19.05%
Cyfanswm	9	12	21	100.00%

Cyfeiriadedd rhywiol

	Cyfanswm	%
Hoyw / Lesbiaidd	1	4.76%
Heterorywiol	16	76.19%
Ddim yn dymuno datgelu	4	19.05%
Cyfanswm	21	100.00%

Anabledd

	Cyfanswm	%
Nac oes	19	90.48%
Ddim yn dymuno datgelu	2	9.52%
Cyfanswm	21	100.00%

Statws priodasol

	Cyfanswm	%
Priod	12	57.14%
Yn cyd-fyw	1	4.76%
Arall	8	38.10%
Cyfanswm	21	100.00%

Hil / Tarddiad ethnig

	Cyfanswm	%
Gwyn- Prydeinig	21	100.00%

Ailbennu rhywedd – Nid oes unrhyw ymadawyr sydd wedi cael gweithred ailbennu rhywedd

Crefydd neu gred

	Cyfanswm	%
Cristion	11	52.38%
Ddim yn dymuno datgelu	3	14.29%
Dim (Anffyddiwr)	7	33.33%
Cyfanswm	21	100.00%

Rhesymau dros adael

Staff	Gwrywod	Benywod	Cyfanswm	%
Contract cyfnod penodol wedi dod i ben		2	2	9.52%
Wedi ymddeol	1		1	4.76%
Wedi ymddiswyddo	3	7	10	47.62%
Wedi colli swydd yn wirfoddol	1		1	4.76%
Wedi colli swydd	3	2	5	23.81%
Wedi marw	1	0	1	4.76%
Arall	0	1	1	4.76%
Cyfanswm	9	12	21	100.00%